

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

Cyfle i drafod cynnydd eich plentyn

Ar brynhawn dydd Llun a Mawrth nesaf, y 18fed a'r 19eg o Fawrth, mi fydd yr ysgol ar agor i rieni a gwarcheidiwaid i ddod i drafod cynnydd eu plant gyda staff yr ysgol. Byddwch eisoes wedi derbyn dolen i MS Bookings er mwyn trefnu amser cyfleus. Yn anffodus dim ond 6 munud ar gyfer pob plentyn mae'r amserlen yn caniatáu, ond os yw'r drafodaeth angen mwy o amser mae croeso i chi drefnu i ddychwelyd ar ddiwrnod arall i drafod eich consyrn; er mwyn i ni fedru cadw at yr amserlen ar y nosweithiau yma.

Nyrsys Ysgol yn y Derby

Ar ddydd Llun y 18fed o Fawrth mi fydd y nyrsys ysgol yn ymweld â'r dosbarthiadau Derby fel rhan o gynllun y rhaglen mesur plant. Mae rhieni'r Derby eisoes wedi derbyn neges ynglŷn â hyn nôl ar 25/02/2024 o'r cyfeiriad e-bost noreply@ceredigion.gov.uk

Gŵyl Aml-Sgiliau – Blwyddyn 3 a 4

Hefyd ar ddydd Llun y 18fed o Fawrth mae Gŵyl Aml-sgiliau a drefnir gan Ceredigion Actif yn cael ei chynnal ar gyfer disgyblion blynnyddoedd 3 a 4 ar gampws y Brifysgol. Bydd y plant yn cerdded yno ar ôl cinio, ac yn dychwelyd erbyn diwedd y dydd. Bydd angen gwisg ac esgidiau addas arnynt ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff, yn ogystal â photel o ddŵr. Does dim cost ynghlwm â'r weithgaredd hon.

Y Gymraeg

Na, dyw'r Eisteddfodau ddim ar ben!

Eisteddfod Cardi-iaith 😊

Gweler y posteri yma ar gyfer gweld y gwahanol gystadlaethau, o ffotograffiaeth i berfformio gydag anifail anwes!

Mae'r gwobrâu yn hael hefyd - talebau o £10

Mae dwy ffordd o gystadlu – naill ai drwy dudalen Facebook Cardi-iaith, neu drwy e-bost at Anwen.EleriBowen@ceredigion.gov.uk

Dyddiad cau : Ebrill 20fed 2024

Pob hwyl!



The poster is divided into three main sections: Eisteddfod Cardi-iaith, GWOBRAU, and CANLLAWIAU.

- EISTEDDFOD CARDI-IAITH:**
 - FFOTOGRAFFIAETH:** Thema: GWANWYN
Categori:
DYSGU SYLFAEN / BL 3 - 6 / UWCHRADD
 - ADDURNO FFENEST TŶ NEU TI DY HUN:** Thema: Y PASG
Categori: AGORED
 - ANIFAIL ANWES TALETOG:** PERFFORMIAD GYDAG ANIFAIL ANWES DIM MWY NA 2 FUNUD O HYD.
Categori: AGORED
 - LIMRIG:** "MAE'N FORE DYDD LLUN UNWAITH ETO"
Categori: CYNRADD AC UWCHRADD
- GWOBRAU:**
 - GWOBRWYIR Y 1AF YM MHOB CYSTADLEUAETH A CHATEGORI 1AF - TALEB £10 O SIOP GYMRAEG LEOL
- CANLLAWIAU:**
 - Yn agored i holl Disgyblion Ceredigion
 - Ceisiadau i w danfon drwy neges i dudalen Cardi-iaith ar Facebook neu drwy e-bost at Anwen.EleriBowen@ceredigion.gov.uk
 - Rhaid nodi Enw, Blwyddyn Ysgol, Ysgol, atodi'r eitem / darn o waith
 - Rhaid i bob darn / perfformiad fod mewn chwaeth dda
 - Dyddiad cau hanner dydd, 20fed Ebrill 2024
 - Mi fydd lluniau / fideos o'r cystadlu yn cael eu rannu ar dudalen Facebook Cardi-iaith

Ffarwelio â Miss Nia Wyn

Yn dilyn cyfnod o dros 20 mlynedd yn yr ysgol, rydym yn ffarwelio â Miss Nia Wyn ar ddiwedd wythnos nesaf. Bu Miss Wyn yn athrawes yn y dosbarth Meithrin am gyfnod, cyn symud i flwyddyn 1, ac yn Bennaeth ar y Dysgu Sylfaen yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf. Dymunwn bob llwyddiant i Miss Wyn yn ei swydd newydd, sef Pennaeth Cynorthwyol yn Ysgol Bro Hyddgen. Fore dydd Gwener nesaf mi fyddwn yn cynnal gwasanaeth ysgol gyfan i ffarwelio â hi, ac i ddymuno'n dda iddi i'r dyfodol.



Pwyllgor Eco – Noson Codi Arian wedi'i threfnu i gefnogi byd natur



Mae dal ychydig o docynnau ar gael ar gyfer noson codi arian Caru Gwenyn yn y Bank Vault yn Aberystwyth nos Wener nesaf!

Gyda nifer wych o siaradwyr a cherddorion lleol, bydd y digwyddiad yn gyfle gwych i ddathlu natur, cyfarfod â phobl o'r un anian a chodi arian i wneud mannau awyr agored yr ysgol yn fwy cyfeillgar i fywyd gwylt.

Mae'r tocynnau'n cael eu gwerthu ar sail talu'r hyn a fedrwrch gyda chyfraniad o leiaf £5 yn mynd i'r ysgol.

Gallwr gael eich tocynnau o: treegeneration.uk/bee-friendly-night

Diolchwn i Rob Squires am drefnu'r noson.

Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf

Bydd y dydd Llun cyntaf wedi gwyliau'r Pasg, Ebrill 8fed, yn ddiwrnod H.M.S (Hyfforddiant Staff)

Bydd tymor yr haf yn cychwyn i blant felly ar ddydd Mawrth y 9fed o Ebrill.

Taith Blwyddyn 5 a 6 i Wersyll Glan-llyn : Mai 20, 21 a 22^{ain}

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

Yn gywir,

Gareth L James

Pennaeth Dros Dro

15/03/2024

www.ysgolgymraeg.cymru



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

An opportunity to discuss your child's progress

On the afternoon of next Monday and Tuesday, the 18th and 19th of March, the school will be open for parents and guardians to come and discuss their children's progress with the school staff. You will have already received a link to MS Bookings in order to arrange a convenient time. Unfortunately, the timetable only allows 6 minutes for each child, but if the discussion needs more time you are welcome to arrange to return on another day to discuss your concern; so that we can stick to the schedule on these nights.

School Nurses in Reception

On Monday the 18th of March the school nurses will visit the Reception classes as part of the child measurement programme. Reception parents have already received a message regarding this back on 25/02/2024 from the email address noreply@ceredigion.gov.uk

Multi-Skills Festival – Year 3 and 4

Also on Monday the 18th of March a Multi-skills Festival organised by Ceredigion Actif is being held for pupils in years 3 and 4 on the University campus. The children will walk there after lunch and return by the end of the day. They will need suitable clothing and footwear for taking part in exercise activities, as well as a bottle of water. There is no cost attached to this activity.

The Welsh Language

No, the Eisteddfodau are not over yet!

Cardi-laith Eisteddfod 😊

See the posters for different competitions, from photography to performing with a pet!

The prizes are generous too - vouchers of £10

There are two ways to enter – either through Cardi laith's Facebook page, or by email to Awen.EleriBowen@ceredigion.gov.uk

Closing date : April 20th 2024

EISTEDDFOD CARDI-LAITH

FFOTOGRAFFIAETH: THEMA: GWANWYN
CATEGORI:
DYSGU SYLFAEN / BL 3 - 6 / UWCHRADD

ADDURNO FFENEST TY NEU TI DY HUN:
THEMA: Y PASG
CATEGORI: AGORED

ANIFAIL ANWES TALETOG: PERFORMIAD GYDAG
ANIFAIL ANWES DIM MWY NA 2 FUNUD O HYD.
CATEGORI: AGORED

LIMRIG:
"MAE'N FORE DYDD LLUN UNWAITH ETO"
CATEGORI: CYNRADD AC UWCHRADD

GWOBRAU

GWOBWRWYIR Y 1AF YM MHOB CYSTADLEUAETH A CHATEGORI
1AF - TALEB £10 O SIOP GYMRAEG LEOL

Yn agored i holl Disgyblion Ceredigion
Ceisiadau i'w danfon drwy neges i dudalen
Cardi- laith ar Facebook neu drwy e-bost at
Anwen.EleriBowen@ceredigion.gov.uk
Rhaid nodi Enw, Blwyddyn Ysgol, Ysgol, atodi'r eitem /
darn o waith
Rhaid i bob darn / perfformiad fod mewn chwaeth dda
Dyddiad cau hanner dydd, 20fed Ebrill 2024
Mi fydd lluniau / fideos o'r cystadlu yn cael eu
rannu ar dudalen Facebook Cardi-laith

Farewell Miss Nia Wyn

Following a period of over 20 years at the school, we are saying goodbye to Miss Nia Wyn at the end of next week. Miss Wyn has taught in the Nursery and Derbyn classes, before moving to year 1, and has been Head of Foundation Learning during the last eight years. We wish Miss Wyn every success in her new role as Assistant Headteacher at Ysgol Bro Hyddgen. Next Friday morning we will hold a whole school assembly to say goodbye and to wish her well for the future.



Eco Committee - Fundraising evening organised to support nature



There are still a few tickets available for the Bee Friendly fundraiser night at the Bank Vault in Aberystwyth next Friday!

With a great line up of speakers and local musicians, the event will be wonderful opportunity to celebrate nature, meet like-minded people and raise money to make the school's outdoor spaces more wildlife friendly.

Tickets are being sold on a pay as you feel basis with a minimum £5 contribution going to the school.

You can get your tickets from: treegeneration.uk/bee-friendly-night

We are grateful to Rob Squires for organising the event.

Half Term Calendar

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for this half term. A link to the calendar is included in every letter, and it lives permanently on the school's website.

Important dates next half term

The first Monday after the Easter holidays, April 8th, will be an I.N.S.E.T day (Staff Training)

The summer term will therefore start for children on Tuesday the 9th of April.

Years 5 and 6 residential visit to Glan-llyn : May 20, 21 and 22nd

If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.

Yours sincerely,

Gareth L James

Acting Headteacher

15/03/2024

✉ www.ysgolgymraeg.cymru